**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS-23-02(p.5)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher, 18 Rhagfyr 2002** |
| **Teitl:** | **Mentrau Cyffuriau ac Alcohol** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |

## Diben

Papur i'r Pwyllgor ei nodi sy'n trafod i ba raddau y mae anghenion o ran gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n cael eu hateb, ac yn arbennig felly o ran gwasanaethau dadwenwyno.

## Y Cefndir

Gwybodaeth gyffredinol sydd yn y papur hwn gan fod papur mwy manwl yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Efallai y bydd yr Aelodau am droi at y papur hwnnw er gwybodaeth.

Rhoddwyd tua £3 miliwn y flwyddyn yn ôl i gyllidebau'r Awdurdodau Iechyd ym 1994 ar gyfer gweithgareddau i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Roedd hynny'n golygu y gellid gwneud penderfyniadau'n lleol ac roedd yn rhoi i'r awdurdodau ragor o hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. Nid oedd yr adnoddau wedi'u clustnodi, ond roedd disgwyl i'r awdurdodau iechyd wario o leiaf 0.4 y cant o'u dyraniadau refeniw dewisol ar drin ac atal camddefnyddio sylweddau. Yr awdurdodau iechyd fyddai'n penderfynu a oeddent am wario mwy na'r 0.4 y cant o arian dewisol ar y gwasanaethau hyn.

Cafwyd adroddiadau'n ddiweddar oddi wrth yr awdurdodau lleol ar lefel y gwariant a gododd yn 2001/02 ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Aethpwyd y tu hwnt i'r targed o 0.4% unwaith eto. Ledled Cymru, gwariwyd cyfanswm o £12 miliwn, sef bron i 0.7% o'r dyraniad dewisol. Er bod y gwariant mewn gwirionedd yn uwch na'r targed, bu pryder cynyddol ynghylch cael gafael ar wasanaethau i drin camddefnyddio sylweddau, a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Yn sgil y pryderon hyn, comisiynwyd adolygiad o wasanaethau trin ac adfer. Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Trosglwyddwyd cyfrifoldeb dros Wasanaethau Cyffuriau ac Alcohol y GIG i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Cyhoeddodd y Gweinidog yn ddiweddar y bydd gwariant y GIG ar y gwasanaeth hwn yn cael ei glustnodi yn y dyfodol, ac y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu dros £2.5 miliwn yn ystod y tair blynedd nesaf i helpu i fynd i'r afael â bygythiad cyffuriau caled.

**Gwasanaethau Dadwenwyno**

Yn ôl y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 47 o welyau dadwenwyno ledled Cymru. Mae'r amseroedd aros yn amrywio o 1 i 15 mis. Cydnabyddir bod y gwasanaeth ledled Cymru'n dameidiog a bod angen ei adolygu er mwyn ceisio datrys y broblem.

Mae gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru gontract gyda Gwasanaethau Gwybodaeth Cyngor Alcohol (CAIS) i reoli cyfleuster dadwenwyno 20 gwely, Hafan Wen. Mae'r uned ar safle Ysbyty Maelor Wrecsam a dyma'r uned ddadwenwyno bwrpasol gyntaf i gleifion mewnol yng Nghymru.

Yn ogystal â'r 20 gwely dan gontract gydag Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru mae gan CAIS bedwar gwely arall i gleifion o ardaloedd eraill. Mae'r uned yn cynnig gwasanaeth dadwenwyno i bobl sy'n ddibynnol ar gyffuriau a phobl sy'n ddibynnol ar alcohol. Mae gwasanaeth dadwenwyno gartref hefyd ar gael i unigolion addas.

Darperir gwasanaethau yn Ne Cymru fesul ardal awdurdod iechyd. Timau Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith. Mae'r timau hyn yn cydweithio'n agos ag asiantaethau eraill i helpu'r defnyddwyr. Cynigir gwelyau yn yr unedau iechyd meddwl cyffredinol.

Yng Ngogledd Bro Taf, Cymorth Cyffuriau Taf Elái (TEDS) a Drugaid sy'n gwneud gwaith dadwenwyno yn y gymuned. Yn Ne Bro Taf mae 12 gwely dadwenwyno cyffuriau ac alcohol yn Uned Adfer yn yr Eglwys Newydd. Mae gweddill y gwelyau dadwenwyno a gwasanaethau cymunedol yma a thraw ledled y De, a phrynir rhai gwasanaethau o'r Amwythig, yn dibynnu ymhle y mae'r cleifion.

Mae'r Cynulliad yn ariannu'r criw cyntaf o 40 meddyg teulu er mwyn iddynt gael tystysgrif camddefnyddio sylweddau gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu. Bu cryn ddiddoredeb yn y cwrs hwn ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes goblygiadau ariannol yn ymwneud â hyn. Bydd arian yn cael ei drosglwyddo o Iechyd i'r Is-adran Llywodraeth Leol ar gyfer 2003-04. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y ffigurau.

**Cydymffurfio**

Mae Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (Adran 1) yn ymwneud â'r ddyletswydd i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr a darparu neu sicrhau y darperir gwasanaethau. Trosglwyddwyd y

pwerau hyn i'r Cynulliad o dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 ac maent wedi'u dirprwyo i Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi i'r Cynulliad rym i wneud unrhyw beth y cyfrifir ei fod yn hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu yn gydnaws â hynny neu'n atodol i hynny (Adran 40), a thynnu gwariant (Adran 85, paragraff 2) a gosod amodau ar roi cymorth ariannol gan y Cynulliad (Adran 85, paragraff 3). Fel ag y sonnir uchod, mae'r swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chamddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol hefyd wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb. Mae Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad yn fodlon. ACO Cyf CMT 12/02/1231

**Jane Hutt**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt: Tina Jones, yr Is- Adran Polisi a Datblygu Gwasanaethau Iechyd, ffôn 029 2082 5734**